Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# "Creu'r Cysylltiadau"

Digwyddiad Ymgysylltu Trydydd Sector

*12 Rhagfyr 2014*

# Adroddiad yn dilyn y digwyddiad

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES



Ar 12 Rhagfyr 2014, cynhaliodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddigwyddiad er mwyn ymgysylltu â gwasanaethau'r sector gwirfoddol a chymunedol (y cyfeirir ato hefyd fel y trydydd sector). Prif ddiben y digwyddiad oedd ymgynghori â rhanddeiliaid ar amcanion ar gyfer yr ail adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn yr Interchange, Hen Golwyn ac fe'i fynychwyd gan 66 o bobl a oedd yn cynrychioli 35 o sefydliadau lleol a rhanbarthol. Gwelir rhestr o'r sefydliadau a fynychodd ac a gyfrannodd at yr ymgynghoriad yn Atodiad A.

Diben yr adroddiad hwn yw nodi'r negeseuon allweddol a dderbyniwyd a'r ymatebion i'r adborth a dderbyniwyd.

## *Cynllun Heddlu a Throsedd (fel y'i diwygiwyd 2014/15)*

Gofynnwyd am adborth gan fynychwyr ynglŷn â'r canlyniadau a'r amcanion a nodwyd yn adolygiad y llynedd o'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Mae tri chanlyniad a phedwar amcan wedi eu hadnabod.

| *Canlyniadau* | *Amcanion* |
|---|---|
| • Diogelwch yn y cartref<br>• Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus<br>• Plismona gweladwy a hygyrch | • Atal trosedd<br>• Darparu ymateb effeithiol<br>• Lleihau niwed a'r risg o niwed<br>• Adeiladu partneriaethau effeithiol |

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn derbyn yr amcanion a'r canlyniadau strategol. Cafwyd peth adborth am droseddau penodol/materion cysylltiedig â throsedd nad oeddent yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun. Fe ddaeth yn amlwg o'r trafodaethau, gan fod yr amcanion yn cael eu gosod ar lefel strategol mor uchel, nad oedd hi bob amser yn glir i'r cyhoedd pa droseddau a/neu faterion cysylltiedig â throsedd yr oeddent yn ymwneud â nhw. Er mwyn gwneud hyn ychydig yn gliriach, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyhoeddi dogfen gefnogi, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad B, er mwyn rhoi mwy o fanylion o'r meysydd trosedd y mae'r amcanion penodol yn berthnasol iddynt.

Roedd cyfranogwyr yn awyddus i drafod rhai materion trosedd allweddol gan ystyried sut y gallai Cynllun y Comisiynydd effeithio arnynt a gwella gwasanaethau:

## 1. Gwasanaethau Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol

### Prif faterion a godwyd:

- **Cyllid annigonol sy'n cael ei roi yn y tymor byr bob amser (h.y. yn flynyddol neu'n llai aml)**
- **Pwysau afresymol ar wirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau lle mae galw uchel / llawer o bwysau.**

### Sylwadau:

#### a. Cyllid, parhad a darpariaeth effeithiol

Mae problem gyda'r ffaith bod gwasanaethau trais domestig yn cael eu hariannu o flwyddyn i flwyddyn gan Lywodraeth Cymru sy'n ei gwneud hi'n anodd recriwtio, hyfforddi a chadw unigolion cymwys o fewn y ddarpariaeth.

Bydd nifer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu cyflawni gan wirfoddolwyr sy'n gweithio o dan lawer iawn o bwysau. Mae'r ffordd a weithredir ar hyn o bryd yn achosi llawer iawn o broblemau i'r gwasanaeth gan eu bod yn colli unigolion da, cymwys.

Mae ariannu gormod o ddarparwyr yn gwanio'r cynnyrch a chanlyniad hyn yw nad yw'r dioddefwyr yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

Mewn rhai meysydd, does dim sicrwydd cyllid y tu hwnt i Fawrth 2015. Beth fydd yn digwydd wedyn? Mae sefydliadau ANGEN gwybod. Mae effeithiau sylweddol i hyn a allai arwain at gostau i wasanaethau eraill.

#### b. Gwirfoddolwyr yn y ddarpariaeth o wasanaethau camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol

Cafwyd adborth sylweddol ar y rôl mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae o ran cefnogi dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. Mae diffyg cyllid addas a mwy o angen am y gwasanaeth yn arwain at bwysau gormodol yn cael ei roi ar wirfoddolwyr wrth iddynt gyflawni eu rôl. Gall gwirfoddolwyr gael eu gorlethu gan y pwysau.

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

Rydw i wedi cynyddu amlygrwydd trais domestig yn yr ail adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Byddaf yn parhau i graffu ar ddarpariaeth yr Heddlu o wasanaethau mewn perthynas â chamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol ac rydw i wedi gosod mesurau yn erbyn hyn. Byddaf yn parhau i flaenoriaethu a dyrannu cyllid i ddarparwyr gwasanaethau atal camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol drwy'r gyllideb gwasanaethau dioddefwyr. Byddaf hefyd yn parhau i ariannu prosiect sy'n ymwneud â throseddwyr trais domestig, sy'n canolbwyntio ar atal y trosedd rhag digwydd eto.

Byddaf yn parhau i bwyso ar Weinidogion San Steffan a Llywodraeth Cymru ynglŷn ag effeithiau ariannu byr dymor, yn enwedig yn y maes trais domestig a rhywiol. Yn fwy na hynny, byddaf yn adolygu prosesau ariannu mewnol fy Swyddfa er mwyn gallu gosod amserlenni hirach er mwyn galluogi'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau i gynllunio ymlaen llaw.

Byddaf hefyd yn pwysleisio i Weinidogion y graddau y mae gwasanaethau camdriniaeth ddomestig yn cael eu cefnogi gan wirfoddolwyr a allai fod yn cael eu rhoi o dan bwysau sylweddol.

## 2. Anghenion y Dioddefwr

### Prif faterion a godwyd:

- **Angen gwell canolbwyntio ar y dioddefwr wrth ddelio â throsedd**
- **Cyllid annigonol yn cael ei gynnig i Ogledd Cymru o'i gymharu â De Cymru (Caerdydd)**
- **Nifer o bobl ofn riportio troseddau.**

### Sylwadau:

a. **Fe ddylai'r Heddlu ganolbwyntio ar y dioddefwr er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni.**
b. **Mae popeth yn mynd i Gaerdydd, beth am anghenion dioddefwyr Gogledd Cymru?**
c. **Mae pobl ofn riportio troseddau.**

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:



Rydw i wedi sefydlu prosiect pwrpasol er mwyn ystyried a delio mewn ffordd effeithiol ag anghenion dioddefwyr. Sefydlwyd y bwrdd prosiect dioddefwyr yn dilyn **"Asesiad Anghenion"** manwl ar y math o droseddau a natur y troseddau sy'n effeithio ar bobl Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd prosiect wedi sefydlu Canolfan Dioddefwyr, y cyfeirir ati fel Canolfan Dioddefwyr Gogledd Cymru, lle bydd gwasanaethau penodol ar gael er mwyn delio â materion sy'n effeithio ar ddioddefwyr. Rwy'n cynnal cynhadledd er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynlluniau gwasanaeth lleol newydd. "Cynhadledd Strategaeth Integredig i Ddioddefwyr" yw teitl y gynhadledd ac fe'i cynhelir yng Nghanolfan Fusnes Conwy ar ddydd Gwener, 20 Mawrth.

GOGLEDD CYMRU
Canolfan Cymorth Dioddefwyr
Victim Help Centre
NORTH WALES

Rwy'n cytuno mai'r dioddefwyr ddylai fod wrth wraidd gwasanaeth plismona effeithiol ac rwy'n monitro'r Heddlu ar y gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr. Mae fy Nghynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig yn cynnwys nifer o fesurau sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr gan gynnwys lefelau o droseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr, ymddygiad gwrthgymdeithasol, amseroedd ymateb a lefelau bodlonrwydd dioddefwyr.

Byddaf yn parhau i dynnu sylw Gweinidogion Llywodraeth Cymru at y materion a brofir yng Ngogledd Cymru er mwyn helpu i sicrhau nad yw cyllid yn cael ei ddosbarthu mewn modd anghyson ac er mwyn sicrhau bod Gogledd Cymru yn derbyn ei chyfran o'r cyllid sydd ar gael.

Pan fydd pobl o fewn cymunedau yn nodi bod arnynt ofn riportio troseddau, mae'n hanfodol ein bod yn deall pam. Ai diffyg hyder yn yr Heddlu yw hyn, ofn na fydd unrhyw un yn eu cymryd o ddifrif ynteu ofn dial gan y troseddwyr?

O dan fy archwiliad i bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ymgymryd â nifer o weithgareddau er mwyn tawelu meddyliau dioddefwyr (a dioddefwyr posibl) o ran pwysigrwydd riportio troseddau ac ansawdd y gwasanaeth y byddant yn ei dderbyn petai angen iddynt riportio trosedd. Bydd yr Heddlu hefyd yn cydweithio ochr yn ochr â phartneriaid megis Cymorth i Ddioddefwyr er mwyn darparu dioddefwyr trosedd â chymorth a chefnogaeth ac er mwyn tawelu eu meddyliau.

## 3. Heddlu Gweladwy a Chyswllt Cymunedol

### Prif faterion a godwyd:

- **Angen plismona mwy gweladwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig**
- **Swyddogion cymunedol yn newid rhy aml**
- **Angen clywed mwy gan bobl hŷn**

### Sylwadau:

**a. Mae angen gwella gwelededd yr Heddlu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae angen gwell cyswllt cymunedol cyffredinol. Bydd cymunedau'n dod i adnabod Swyddog lleol ac yna byddant yn newid yn rhy gyflym.**

**b. Fe ddylai'r genhedlaeth hŷn gael mwy o lais. Fe ddylai Swyddogion a SCCH siarad fwy â'r genhedlaeth hŷn; gallai hyn roi fwy o hyder iddynt siarad allan am droseddu.**

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:



Mae gwelededd yr Heddlu wedi bod yn fater pwysig i mi erioed. Yn ystod fy ymgyrch gwreiddiol ar gyfer y rôl hon fe dynnwyd fy sylw at anawsterau penodol gyda rhai mathau penodol o droseddau a phresenoldeb yr heddlu mewn mannau gwledig. Dyma pam y cynyddodd fy nghynllun heddlu a throsedd cyntaf y niferoedd Swyddogion ac y ffurfiwyd Tîm Plismona Cefn Gwlad. Fy ngwaith rŵan yw craffu ar yr Heddlu o ran eu gallu i sicrhau'r cymunedau bod Swyddogion a SCCH yn weladwy yn y cymunedau ac y gallant ffurfio perthnasau cymunedol cadarnhaol. Byddaf yn parhau i fonitro a herio'r Heddlu a hyn drwy'r Uwch Fwrdd Gweithredol.[1]

Mae yna faterion plismona gweithredol sy'n ei gwneud hi'n anodd i Swyddog unigol aros mewn un swydd yn barhaus, fodd bynnag gyda phlismona cymunedol mae'n ofynnol i Swyddogion cymunedol aros yn eu swyddi am o leiaf 2 flynedd er mwyn helpu i adeiladu a chynnal perthnasau cymunedol cryf.

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth cymharol uchel o bobl hŷn gyda'r cyfrifiad diwethaf yn dangos bod 20% o bobl Gogledd Cymru yn 65 neu'n hŷn. Dros y misoedd diwethaf mae fy nhîm wedi bod yn mynd ati i ymgysylltu ar faterion sy'n ymwneud â phobl hŷn and mae pobl hŷn yn rhan o fy nghynlluniau ymgysylltu i yn ogystal â rhai'r Heddlu. Byddaf yn trafod â'r Heddlu sut y gallwn wella ein hymgysylltiad â phobl hŷn a thawelu eu meddyliau ymhellach.

[1] Yr Uwch Fwrdd Rheoli (SEB) yw'r prif fforwm lle mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Comisiynydd yn dal y Prif Gwnstabl a'i dîm o Uwch Swyddogion (ACPO) yn atebol am y ddarpariaeth gwasanaethau plismona. Cynhelir cyfarfodydd SEB bob chwe wythnos.

## 4. Cyfathrebu'r Heddlu

### Prif faterion a godwyd:

a. **Bylchau yng nghyfathrebu'r Heddlu ac wrth gael yn ôl at ddioddefwyr wedyn.**

b. **Materion o ran anghwrteisi gan Swyddogion, yn enwedig tuag at bobl ifanc.**

c. **101 yn rif sydd yn aml yn brysur ac mae'n anodd cael drwodd.**

### Sylwadau:

a. **Mae angen gwell gwybodaeth ddilynol, angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl. Angen i'r Heddlu fod yn well am ddelio â phobl â phroblemau cyfathrebu. Proses o wneud cwyn yn rhy gymhleth – cyhoedd ddim yn deall y broses.**

b. **Y ffordd mae'r Heddlu wedi delio â mi – wedi cael fy stopio ar sawl achlysur, nid cael fy stopio sy'n achosi'r broblem ond anghwrteisi'r Swyddogion. Syniadau o ragfarn gan bobl ifanc h.y. ei bod hi'n iawn i'r heddlu regi arnynt.**

c. **Gwasanaeth 101 BYTH yn cael ei ateb. Nid yw'n cael ei fonitro na'i recordio.**

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

Mae'r materion hyn yn gysylltiedig â fy mlaenoriaeth "Darparu Ymateb Effeithiol" ac rydw i wedi gosod mesurau, y gallaf fonitro perfformiad yr Heddlu yn herbyn, yn fy nghynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig. Er enghraifft, byddaf yn ystyried:

- Cyfartaledd amseroedd ymateb yr Heddlu i argyfyngau
- Yr adborth a roddir drwy arolygon dioddefwyr, yn enwedig lefelau bodlonrwydd

Mae lefelau anfodlonrwydd megis cyfathrebu gwael â dioddefwyr ag anghwrteisi Swyddogion yn cael ei ddelio ag ef gan Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd drwy "Grŵp Rhagoriaeth Hyder a Gwasanaeth" sydd wedi'i sefydlu er mwyn helpu'r Heddlu i wella ei berthynas â'r cyhoedd. Mae cylch gorchwyl y grŵp hwn yn cynnwys mesurau i sicrhau bod y sefydliad yn rhoi blaenoriaeth a phwysigrwydd i sut mae'r cyhoedd yn gweld Heddlu Gogledd Cymru ar bob lefel.

Mae'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn aelod o'r grŵp ac yn monitro cynnydd y gweithrediadau. Bydd materion megis anghwrteisi tuag at bobl ifanc yn cael eu delio â nhw ac yn cael eu monitro gan fy Swyddfa.

Yn fwy na hynny, mae fy ngallu i graffu ar berfformiad yr Heddlu yn y cyfarfodydd Uwch Fwrdd Strategol yr Heddlu a gynhelir bob chwe wythnos yn fy ngalluogi i herio'r Heddlu am eu lefelau bodlonrwydd. Yn gynharach yn 2012, mynegais fy mhryderon â'r lefelau bodlonrwydd presennol. Wrth graffu ar y mater hwn yn ddiweddar gwelwyd cynnydd yn y lefelau bodlonrwydd ac mae hynny'n destun i'r gwaith a gan y Grŵp Rhagoriaeth Hyder a Gwasanaeth.

## 5. Atal Trosedd, Rhesymau Troseddau a Gwaith Partneriaeth

### Prif faterion a godwyd:

- **Angen y Comisiynydd i ddelio â nifer o'r ffactorau sy'n achosi trosedd megis camddefnyddio sylweddau neu faterion iechyd meddwl.**

### Sylwadau:

a. **Dylid gwario mwy o arian ar atal trosedd. Sut mae'r CHTh yn cydweithio â phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi trosedd e.e. iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol a chyffuriau?**

b. **Angen rhoi cymorth a chefnogaeth i bobl cyn iddynt ddechrau camddefnyddio sylweddau a throseddu o ganlyniad i hynny.**

c. **Pam nad ydym yn fwy llym â'r bobl sy'n gwerthu cyffuriau?**

d. **Nid yw'r Heddlu a'r CHTh yn gallu delio â'r holl faterion eu hunain – angen ceisio cael nawdd sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.**

e. **Beth am sylweddau anterth cyfreithlon?**

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

Rydw i a'r Prif Gwnstabl yn rhan o'r Bwrdd Cymunedau Diogelach ynghyd â'r Prif Weithredwyr ac Arweinwyr yr holl awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae gan y **Bwrdd Cymunedau Diogelach** y dasg o sefydlu strategaethau er mwyn delio â rhai o achosion troseddau megis alcohol, cyffuriau a threfn gyhoeddus. O ran yr Heddlu a'r sector cyfiawnder ehangach mae **troseddau'n ymwneud â chyffuriau ac erlyn troseddwyr yn rhywbeth** sy'n cael ei gymryd o ddifrif ac mae troseddwyr yn cael eu herlyn yn y modd cywir. Fodd bynnag, rwy'n siŵr, ynghyd â'r Heddlu a'n partneriaid mai'r allwedd i fynd i'r afael â throseddau o'r fath yw aflonyddu, rhwystro ac atal y troseddau rhag digwydd.

Nid yw fy Swyddfa a'r Heddlu yn gweithio yn gwbl ar wahân i'w gilydd, rydym yn cydweithio ar y cyd â phartneriaid. Rwy'n ymwybodol y dylid datblygu a gwella gwaith partneriaeth felly rydw i wedi cadw "gwaith partneriaeth effeithiol" yn un o'r amcanion allweddol yn y cynllun diwygiedig. Credaf ei bod hi'n hanfodol ein bod yn sefydlu partneriaethau cryfach er mwyn delio mewn modd mwy effeithiol ag achosion trosedd megis camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl. Mae'r holl bartneriaethau diogelwch cymunedol Gogledd Cymru yn rheoli rhaglenni er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ar hyn o bryd. Mae rhaglenni o'r fath yn cynnwys partneriaid o'r sector cyhoeddus a gwirfoddol yn darparu gwasanaethau er mwyn atal neu leihau effaith camddefnyddio sylweddau. Drwy gael perthnasau gwaith hyd yn oed yn agosach rwy'n credu y gall ein sefydliadau gael agwedd hyd yn oed yn fwy cadarn tuag at y broblem ac y byddwn yn fwy llwyddiannus wrth ddelio â'r broblem o ganlyniad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydw i wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r diffygion o ran gwasanaethau ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed ac felly'n fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr trosedd. Rydw i felly wedi cynnwys yn y cynllun diwygiedig fy mod yn disgwyl i Heddlu Gogledd Cymru weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ymateb ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, yn enwedig y gallu i leihau pa mor agored i niwed yw pobl a gwella gweithdrefnau â phartneriaid.

O ran sylweddau "anterth cyfreithiol" rydw i wedi galw ar ymchwil pellach i gael ei wneud er mwyn i ni allu cael gwell dealltwriaeth o'r effaith hirdymor a'r niwed y byddant yn ei gael ar bobl a chymunedau **[Erthygl Daily Post - PCC Calls for further research]**

## 6. Gwybodaeth am y Trydydd Sector

### Prif Faterion a Godwyd:

- **Mae gan yr Heddlu ddiffyg gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ac a gynigir gan y trydydd sector.**

### Sylwadau:

a. **Mae angen mwy o wybodaeth ar yr Heddlu am y mathau o wasanaethau a gynigir gan y trydydd sector. Yn aml iawn, dim ond darparwyr gwasanaeth mwy y caiff eu hystyried ar gyfer cyfeirio unigolion lle mae nifer o sefydliadau llai, mwy penodol yn cynnig gwasanaethau sy'n cael eu hanwybyddu pan ddaw hi'n amser cyfeirio.**

b. **Nid yw'r Heddlu yn pasio gwasanaethau ymlaen, er enghraifft os oes rhywun yn y ddalfa â phroblemau cyffuriau fe ddylent eu pasio ymlaen. Byddai'n dda petai yna ffordd i Swyddogion Heddlu wybod pa wasanaethau sydd ar gael, yn enwedig cymorth trydydd sector.**

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

Mae cysylltiadau rhwng fy Swyddfa, Heddlu Gogledd Cymru a'r trydydd sector yn hanfodol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydw i wedi ceisio sicrhau bod gennyf yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o'r rôl y mae'r trydydd sector yn ei chwarae mewn plismona a'r ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal grwpiau rhanddeiliaid a fynychir gan nifer o gyrff trydydd sector er mwyn cynghori a chefnogi'r heddlu ar faterion plismona penodol.

Mae'n glir, gyda rhai darparwyr gwasanaeth bod dealltwriaeth dda o'r cymorth maent yn ei roi a bydd Swyddogion yn aml yn cyfeirio pobl atynt. Mewn achosion eraill, nid yw Swyddogion mor ymwybodol o'r gwaith a wneir gan y trydydd sector.  Hoffwn ddatblygu'r cysylltiadau rhwng y trydydd sector a phlismona yng Ngogledd Cymru. Rydw i wedi gwerthfawrogi'n arw gwaith y prosiect "Gwneud y Cysylltiadau" sy'n helpu i ddod â grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn agosach at y gwaith a wneir yn y sector cyhoeddus. Gan fod y prosiect hwn yn dod i ben ym mis Mawrth 2015 byddaf yn adolygu fy opsiynau er mwyn gweld sut gall fy Swyddfa barhau â'r gwaith da sy'n cael ei gychwyn gan y fenter hon.

Yn fwy na hynny, ym mis Gorffennaf 2015 byddaf yn lansio Canolfan Cymorth Dioddefwyr newydd mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Gofal Tystion a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Bydd y Ganolfan Dioddefwyr yn darparu dioddefwyr ag amrywiaeth eang o wasanaethau a bydd yn ceisio datblygu'n ganolfan rhagoriaeth ar gyfer gwasanaethau cefnogi lleol ar gyfer dioddefwyr gan gynnwys llwybrau cyfeirio cadarn i wasanaethau sefydliadau trydydd sector.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau cefnogi ymarferol ac emosiynol, bydd y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn lansio gwefan annibynnol a fydd yn cynnwys cyfeiriadur llawn o wasanaethau lleol yng Ngogledd Cymru. Bydd modd i ddioddefwyr ddefnyddio cyfleuster 'chwilio Cod Post' er mwyn sefydlu pa wasanaethau sydd wedi'u lleoli ym mha ardal. Bydd cyfeiriadur y wefan yn cynnwys gwybodaeth am sut i gysylltu â phob gwasanaeth gan gynnwys crynodeb byr o'r gwasanaethau a ddarperir er mwyn galluogi'r dioddefwyr i gyfeirio eu hunain at y gwasanaethau perthnasol os ydynt yn dymuno.

Bydd y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn sefydlu storfa o wybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau lleol y gellir eu darparu i ddioddefwyr, yr heddlu a sefydliadau statudol eraill er mwyn eu haddysgu am y gwasanaethau sydd ar gael.

## 7. Pobl Ifanc

### Prif faterion a godwyd:

- **Atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.**

### Sylwadau:

a. **Mae pobl ifanc wedi dadrithio ac yn agored i gyflawni troseddau a chymryd cyffuriau.**
b. **Mae SCCH angen mynediad i wybodaeth er mwyn gallu cynnal gwasanaethau ieuenctid.**
c. **Mae angen i'r Heddlu ddatblygu perthynas gryfach â chartrefi gofal preswyl.**
d. **Mae Swyddogion Heddlu yn aml yn anghwrtais â phobl ifanc.**

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

Mae nifer o faterion plismona un ai yn faterion penodol i bobl ifanc neu byddant yn cael effaith fwy difrifol ar bobl ifanc. Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'n bwysig fy mod i'n ymwybodol o ac yn deall y materion trosedd sy'n effeithio ar bobl ifanc.

Yn unol â Deddf Plant 2004 mae dyletswydd arnaf i graffu ar wasanaethau'r Heddlu o ran yr effaith maent yn ei gael ar bobl ifanc a'r camau mae'r Heddlu'n eu cymryd mewn perthynas â hyn, yn enwedig o ran diogelu. Er enghraifft, bob blwyddyn byddaf yn adolygu'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw gan Uned Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu, Plismona Lleol, y Rhaglen Cyswllt Ysgolion, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac eraill er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion trosedd sy'n effeithio ar blant Gogledd Cymru. Yn fwy na hynny, byddaf yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phobl ifanc am faterion trosedd a gwasanaethau plismona sy'n effeithio arnyn nhw.

Un o'r prif heriau sy'n wynebu'r Heddlu a'i bartneriaid ar hyn o bryd yw Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE). Mae Llywodraeth Prydain bellach wedi cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â CSE drwy ei gynnwys o fewn yr Angen Plismona Strategol. Golyga hyn bod angen i bob Heddlu sicrhau bod yna adnoddau ar gael er mwyn mynd i'r afael â CSE ac mae'n rhaid i heddluoedd gydweithio â'i gilydd ac asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod y broblem yn cael ei hymdrin â hi ar lefel genedlaethol. Mae fy Nghynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig yn gosod yr her i Heddlu Gogledd Cymru fynd i'r afael â CSE fel un o'r anghenion allweddol er mwyn cefnogi'r amcan o Leihau Niwed a'r Risg o Niwed. Bydd gweithgareddau sy'n sail i hyn yn cynnwys datblygu perthynas gryfach â chartrefi gofal preswyl ymysg materion eraill.

Rwy'n ymwybodol fod nifer o'r materion sylfaenol sy'n arwain at droseddau yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl ifanc, pethau fel camddefnydd alcohol a chyffuriau. Felly, rydw i'n cydweithio'n agos ag asiantaethau partner er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn a chefnogi a herio'r Heddlu ynglŷn â'r mentrau plismona lleol sy'n bodoli er mwyn atal pobl ifanc rhag camddefnyddio sylweddau a chyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol.

O ran ansawdd y berthynas rhwng yr Heddlu a phobl ifanc yn gyffredinol, drwy fy ymgysylltiad ac ymgynghoriad rwy'n cydnabod fod angen gwella a datblygu hyn. Byddaf felly yn monitro lefelau bodlonrwydd pobl ifanc drwy'r Grŵp Rhagoriaeth Hyder a Gwasanaeth yn ogystal â pharhau i ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn gallu monitro'r mater hwn.

Bydd fy swyddfa yn cynhyrchu adroddiad llawn ar faterion trosedd sy'n effeithio ar bobl ifanc yn ddiweddarach yn 2015.

## *Craffu gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd*

O fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mae nifer o wahanol brosesau yn bodoli sydd wedi'u cynllunio i gefnogi gwaith y Comisiynydd o graffu ar Heddlu Gogledd Cymru. Mae yna gyfarfodydd, adroddiadau a thrafodaethau allweddol am y gwahanol swyddogaethau plismona lle cynhelir dadansoddiadau er mwyn deall pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau plismona amrywiol. Y fforwm allweddol ar gyfer hyn yw'r Uwch Fwrdd Gweithredol Strategol (SEB). Cyfarfod ffurfiol a gynhelir bob chwe wythnos yw hwn ac a gadeirir gan y Comisiynydd ac a fynychir gan reolwyr Heddlu Gogledd Cymru ar y lefel uchaf ac sy'n cynnwys y Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r ddau Brif Gwnstabl Cynorthwyol. Yn y cyfarfodydd SEB bydd y Comisiynydd, gyda chefnogaeth Dirprwy Gomisiynydd, Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn herio'r Prif Gwnstabl ar berfformiad yr Heddlu ac yn derbyn diweddariadau ffurfiol am y ffordd mae'r Heddlu yn datblygu tuag at gyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

## *I grynhoi*

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd rydw i'n ddiolchgar iawn i bawb a fynychodd y digwyddiad hwn ac i bawb a ddarparodd adborth a gyfrannodd tuag at fy Nghynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig. Rydw i wedi gwrando ar eich safbwyntiau.

Rwy'n cael fy arwain mewn nifer o ffyrdd tuag at osod fy amcanion a'r disgwyliadau rwy'n osod ar Heddlu Gogledd Cymru er mwyn eu cyflawni. Rwy'n edrych i'r Heddlu eu hunain am wybodaeth, ystadegau a dadansoddiadau allweddol. Rwy'n edrych i gyrff cenedlaethol, asiantaethau partner yn lleol ac yn genedlaethol, y cyhoedd, cynrychiolwyr y cyhoedd a'r sector gwirfoddol a chymunedol er mwyn fy hysbysu am faterion trosedd a phlismona allweddol a fydd yn fy nghynorthwyo i osod amcanion perthnasol a heriol i'r gwasanaeth plismona yng Ngogledd Cymru. Credaf fod yr amcanion sydd wedi'u gosod yn fy nghynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig a'r gofynion yr ydw i wedi eu gosod, sy'n sylfaen i'r amcanion hynny, yn briodol ar gyfer anghenion plismona Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'n hanfodol fy mod yn parhau i ymgysylltu mewn modd priodol ac effeithiol ag asiantaethau trydydd sector wrth i ni ddechrau ar flwyddyn ariannol a blwyddyn blismona newydd. Mae angen i ni weithio yn effeithiol mewn partneriaeth a byddwn ni gyd yn wynebu nifer o heriau ariannol a gweithredol yn y flwyddyn sydd i ddod.

Rwy'n falch fy mod wedi cael cynifer o gyfleoedd dros y flwyddyn ddiwethaf i gyfarfod â'r sefydliadau trydydd sector ac i gael eu gweld yn darparu eu gwasanaethau ar y rheng flaen (gweler Atodiad C am restr o'r sefydliadau yr ydw i wedi ymweld â nhw yn ystod 2014).

Er bod gennyf ragolwg strategol ar blismona, mae'n hanfodol fy mod yn gallu gweld y sefyllfa ar y rheng flaen gan y rhai yr ydych chi'n delio â nhw ar lefel gweithredol, yn helpu ac yn cefnogi dioddefwyr, yn helpu i leihau trosedd a chadw cymunedau'n ddiogelach a byddaf yn parhau i ymweld â sefydliadau drwy gydol 2015/16. Rwy'n diolch i chi am eich cyfraniad ac edrychaf ymlaen at gyfarfod cynifer ohonoch â phosibl dros y flwyddyn nesaf. Byddaf, wrth gwrs, yn parhau i ymgysylltu â'r 6 chyngor gwasanaeth gwirfoddol er mwyn sicrhau fy mod yn derbyn safbwyntiau allweddol gan bob rhan o'r sector.

## *Atodiad A – Yn bresennol*

1. Cyngor Conwy Council
2. Welsh Womens Aid
3. Flintshire Voluntary Service
4. Mantell Gwynedd
5. Cais
6. Victim Support
7. Conwy Connect
8. NW Police Independent Advisory Group
9. Scouts Wales
10. Medrwn Mon
11. Trais yn y Cartref
12. NW Womens Centre
13. Rhyl Youth
14. Cyngor Wrexham Council
15. RASA
16. Cyngor Ynys Mon Council
17. Digartref Ynys Mon
18. AVOW
19. Dangerpoint
20. ARC
21. Digartref Ynys Mon
22. Working Links
23. Wrexham Warehouse Project
24. Hafal
25. CAB
26. Cyngor Wrexham Council
27. Clwyd Alun Housing
28. Choose2Change
29. Craig y Don Centre
30. Action for Children
31. Unllais
32. NWAMI
33. NWREN
34. Rhyl City Strategy / ARC
35. CVSC

# Atodiad B – Mathau o Drosedd a Gweithgareddau Plismona Gweithredol sy'n Sylfaen i Amcanion Strategol y Cynllun Heddlu a Throsedd

## Atal Trosedd

- Lleihau aildroseddu yng Ngogledd Cymru – cefnogi gweithgareddau er mwyn ailsefydlu troseddwyr.
- Caledu Targed – helpu i leihau nifer y bobl sy'n dod yn ddioddefwyr trosedd.
- Helpu'r rhai hynny sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
- Datblygu perthnasau cryf gyda phlant a phobl ifanc – parhau i fuddsoddi yn y Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

## Darparu Ymateb Effeithiol

Er mwyn darparu ymateb effeithiol byddwn yn craffu ar:

- Amseroedd ymateb swyddogion i alwadau argyfwng
- Nifer y galwadau difrys a gofnodir fel rhai wedi'u gadael
- Canlyniadau rhagoriaeth gwasanaeth

## Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae nifer o fathau o droseddau wedi'u cynnwys o fewn yr amcan hwn. Mae'r rhain yn cynnwys dioddefwyr:

- Trais Domestig
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)
- Trais Rhywiol
- Troseddau Treisgar Eraill

## Adeiladu Partneriaethau Effeithiol

Mae SCHTh yn cydweithio â nifer o'r awdurdodau lleol yn y:

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol
- Bwrdd Gwasanaeth Lleol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru
- Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru

## Canlyniadau

Mae nifer o fathau o droseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau plismona sydd wedi eu cynnwys o fewn canlyniadau fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Mae rhai enghreifftiau wedi eu rhestru isod â phob canlyniad:

## Diogelwch yn y Cartref

- Trais Domestig
- Byrgleriaeth Ddomestig
- Dwyn

## Diogelwch mewn mannau cyhoeddus

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus
- Troseddau cerbyd

## Plismona gweladwy a hygyrch

- Patrolau lleol (mewn ardaloedd trefol a gwledig)
- Cownteri blaen hygyrch

## *Atodiad C – Ymgysylltiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd â'r Trydydd Sector yn 2014*

| Dyddiad | Sefydliad |
|---|---|
| **Ionawr** | |
| 27 | BAWSO, Swyddfa'r CHTh |
| **Chwefror** | |
| 17 (a 3 Mehefin) | Kathy Hampson, Llamau (Elusen ar gyfer y Pobl Ifanc a'r Merched mwyaf agored i niwed yng Nghymru), Prosiect Adleoli |
| 17 | Eglwys Yr Hôb, Wrecsam |
| 20 | Digwyddiad Ymgysylltu â'r Trydydd Sector, Oriel House, Llanelwy |
| 24 | Canolfan Trais ac Ymosodiadau Rhywiol, Caernarfon (Cymorth i ferched) |
| **Mawrth** | |
| 3 | Cynhadledd Dioddefwyr y CHTh, Venue Cymru, Llandudno |
| 7 | Ymweliad â Bugeiliaid Stryd Bangor |
| 7 | CAIS, Bae Colwyn |
| 10 | Canolfan Merched Gogledd Cymru, Y Rhyl |
| 13 | Prosiect Warehouse |
| **Ebrill** | |
| 2 | Digwyddiad y Rhaglen Cyfiawnder mewn Diwrnod |
| 14 | Y Lleng Brydeinig Frenhinol, Swyddfa'r CHTh |
| 28 (a 7 Gorffennaf) | Working Links, Swyddfa'r CHTh (yna yn eu swyddfeydd ym Mae Coplwyn ym mis Gorffennaf) |
| **Mai** | |
| 22 | Oystercatcher, Rhosneigr |
| 28 | Cymdeithas Islamaidd Conwy, Swyddfa'r CHTh |

| *Dyddiad* | *Sefydliad* |
|---|---|
| **Mehefin** | |
| 5 | Lloches Cymorth i Ferched, Wrecsam |
| 10 | Canolfan Ieuenctid Prestatyn |
| 10 | Ymddiriedolaeth y Tywysog, Swyddfa'r CHTh |
| 26 | Un Llais, Llangefni |
| **Gorffennaf** | |
| 5 | Gay Pride, Bangor |
| 7 | Y Groes Goch Brydeinig, Swyddfa'r CHTh |
| **Awst** | |
| 15 | Grŵp Sgowtiaid a Geidiau Saltney Ferry |
| 20 | Grŵp Cymunedol Eglwys Noddfa, Caernarfon |
| 22 | Cyfarfod Hafal (hefyd yn yr Eisteddfod ar 4 Awst) |
| **Medi** | |
| 10 | TCC Y Bermo |
| **Hydref** | |
| 23 | Seremoni Wobrwyo Cymunedol y CHTh |
| **Tachwedd** | |
| 11 | Siaradwr Gwadd mewn Gwasanaethau Dioddefwr er mwyn siarad am gynllun Gogledd Cymru ar gyfer sicrhau darpariaeth gwasanaeth arbenigol o wasanaethau trais domestig. |
| 12 | Cyfarfod â Phrif Swyddogion y Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol |
| 20 | Cyfarfod Cyfiawnder Adferol |
| 21 | Cyfarfod â Chymdeithas Islamaidd Conwy |
| 24 | Cyfarfod â Tracey Gisbourne ynglŷn â'r Cynllun Peilot Ailsefydlu Troseddwyr. |

| Dyddiad | Sefydliad |
|---|---|
| **Rhagfyr** | |
| 2 | Ymweliad â VIVA, Prosiect Ieuenctid VIVA |
| 3 | Cyfarfod â Sian Hughes, Uned Ddiogelwch Camdriniaeth Ddomestig |
| 10 | Cyfarfod â Linda Roberts – Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan |
| 10 | Cyfarfod â Sefydliad Jigsaw |
| 10 | Digwyddiad Ymgynghori ar y Cynllun Heddlu a Throsedd – Sefydliadau Trydydd Sector. |